cbac wjec

# Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan

## William Shakespeare

### Addasiad Cymraeg gan Gwyn Thomas

**Mae angen i chi ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Cyfnod hanesyddol a chonfensiynau theatrig y cyfnod.
2. Arddull y ddrama.
3. Cymeriadau – y dehongliad, y cymhelliant, agweddau llais, symud a rhyngweithio, eu defnydd o'r gofod actio, eu defnydd o bropiau a set, eu gwisg, colur a gwallt a'r berthynas rhwng yr actorion â'r gynulleidfa.
4. Llwyfannu – effaith y cynhyrchiad ar wahanol lwyfannau e.e. Gwth, Prosceniwm, Cylch a Thraws.
5. Dylunio – y set a'r propiau, y gwisgoedd, y colur a'r gwallt, y golau a'r sain.

## TASGAU TRAFOD YN Y DOSBARTH

Cyn dechrau astudio'r ddrama, mae angen i chi gofio rhai pethau sy'n mynd i'ch helpu chi gyda phob tasg.

1. Llwyfannu
   Mae pedwar prif lwyfan: Prosceniwm, Gwth, Traws a Chylch.
   - Gwnewch lun bras o bob un.
   - Ychwanegwch safle'r gynulleidfa.
   - Cynigiwch syniad o'r math o set sy'n bosib ei ddefnyddio ar bob llwyfan.
   - Cofiwch fod llawr, y llwyfan a'r to yn bwysig.
   - Mae'r waliau y tu ôl i'r gynulleidfa hefyd yn medru cael eu defnyddio.
2. Er mai'r cyfarwyddwr sydd, fel arfer, yn gwneud y penderfyniadau ynghylch llwyfannu, rhaid cydweithio â'r dylunwyr.
   - Ydych chi'n medru enwi pob dylunydd?
   - Beth yw rôl pob dylunydd?
   - Cofiwch fod y dylunwyr yn ychwanegu at awyrgylch y perfformiad ac yn cyfoethogi profiad y gynulleidfa.

   (Mae mwy o wybodaeth a therminoleg yn yr atodiad am ddylunwyr.)
3. Mae'n rhaid i chi gofio bod angen trafod sgiliau llais, symud a rhyngweithio wrth drafod perfformiad. Ydych chi'n cofio'r gwahanol elfennau sydd angen cyfeirio atynt wrth drafod pob un?
4. Mae'n rhaid i chi ddeall ystyr y term **arddull**. Ydych chi'n medru esbonio beth yw ystyr arddull naturiolaidd, arddull symbolaidd ac arddull minimalaidd?

## 1: Cefndir y ddrama

Ysgrifennwyd y ddrama mewn cyfnod hynod doreithiog yng ngyrfa Shakespeare pan oedd yn dechrau creu gwaith mwy cymhleth a dwys. Mae nifer yn tybio bod y dramoddydd wedi ysgrifennu'r ddrama i'w pherfformio mewn priodas aristocrataidd ym mhresenoldeb y Frenhines Elisabeth I. Comedi yw'r ddrama hon ac ysgrifennwyd hi tua 1595-6 ac mae wedi'i lleoli yn Athen, Groeg.

Mae'r ddrama yn adlewyrchu creadigrwydd a dychymyg Shakespeare ac yn tynnu oddi ar nifer o ffynonellau: mytholeg Roegaidd, straeon tylwyth teg Seisnig yr 16eg ganrif, a bywyd pob dydd yn Llundain yn y cyfnod. Serch hynny, mae'r plot a'r cymeriadau wedi'u creu ac nid ydynt yn seiliedig ar ffigurau a ffeithiau hanesyddol.



## 2: Y perfformiad gwreiddiol

Fe'i llwyfannwyd am y tro cyntaf ym mis Ionawr 1605 yn The Curtain Theatre. Roedd yn adeilad mawr siâp wythonglog gyda llwyfan ymwthiol/ffedog.

Byddai'r ddrama wedi'i pherfformio mewn amrywiaeth o leoliadau yn Oes Elisabeth – y tu allan, mewn tafarndai, neu mewn palas brenhinol – ond yn 1576, credir bod James Burbage wedi adeiladu theatr tu allan i Lundain a dyma ble byddai cwmni drama Shakespeare, The Lord Chamberlain's Men, wedi perfformio tua 1594.

Addaswyd y gofod hwnnw yn 1599, ac adeiladwyd Theatr y Globe. Down i'r casgliad mai awditoriwm crwn awyr agored oedd y gofod perfformio, gyda'r gynulleidfa yn eistedd ar dri llawr ar dair ochr llwyfan gwth. Fel arfer, roedd dwy lefel i'r llwyfan, gyda drws trap yn y canol a sawl balconi.

Er nad oedd llawer o set ac ychydig iawn o bropiau, roedd y gwisgoedd, o ddefnyddiau drud, yn llachar a lliwgar. Defnyddiwyd gwisgoedd i gyfleu cyfnod a statws cymeriadau. Gwaharddwyd menywod rhag actio yn y theatr Elisabethaidd a byddai bechgyn ifanc yn eu portreadu yn lle, gan wisgo colur syml. Roedd yn gyffredin i gynulleidfaoedd y cyfnod weiddi yn ystod perfformiadau neu hyd yn oed gerdded ar y llwyfan! Byddai'r perfformiad wedi digwydd yn ystod y dydd i wneud y gorau o'r golau naturiol.

**Edrychwch ar ar y ddelwedd isod i chi gael cipolwg ar theatr yng nghyfnod Shakespeare.**



## 3: Genre

Er bod comedi fel genre wedi bodoli ers canrifoedd, defnyddiodd Shakespeare gomedi fel arf i amlygu agweddau negyddol mewn cymdeithas, ac i chwerthin ar ben dynoliaeth. Defnyddiodd arddull comedi ysgafn yn hytrach na dychan tywyll er mwyn gwneud hwyl am ben gwendidau pobl.

Yn y ddrama hon, mae Shakespeare yn defnyddio hiwmor i feirniadu'r gymdeithas aristocrataidd oedd yn mynnu rheoli bywydau eu plant trwy ddewis pwy oeddynt yn priodi. Hefyd, mae gosod y cymeriadau mewn byd ffantasi a chreu sefyllfa arallfydol yn rhywbeth roedd Shakespeare yn hoffi gwneud i gryfhau'r elfennau comig. Yn y ddrama *Breuddwyd*

*Nos Ŵyl Ifan* mae byd y tylwyth teg a byd dynol ochr yn ochr, ond mae'r cymeriadau dynol yn dioddef llawer mwy na'r tylwyth teg. Efallai mai dyma fwriad y dramodydd, sef annog y gynulleidfa i edrych ar eu hunain a realiti eu bywydau.

Ond ydy'r comedi yr un mor ddoniol heddiw? Her y cynhyrchydd fydd cyfleu'r comedi a'i wneud yn berthnasol heddiw.

## TASGAU

1. Edrychwch ar Act 1, Olygfa 2.

   Tynnwch lun o siâp y llwyfan byddech yn ei ddewis ar gyfer y darn hwn. Cyfeiriwch at:

   - safle'r gynulleidfa
   - ychwanegwch eich syniadau am y set
   - nodwch y rhesymau am eich dewis.

2. Tynnwch lun o wisg Bottom yn y darn hwn. Cyfeiriwch at y canlynol:

   - cyfnod y wisg
   - y defnydd ac ansawdd
   - lliwiau
   - gwallt a cholur.

# 4: Y cymeriadau

Mae nifer o gymeriadau â statws cymdeithasol gwahanol yn y ddrama. Byddai'n syniad i chi edrych ar ddarluniau ohonynt yn gyntaf, ac yna gwneud rhestr o'r tylwyth teg a'r bobl go iawn.



### Bonedd

Theseus, Hippolyta, Egeus, Hermia, Lysander, Demetrius a Helena.

### Tylwyth Teg

Oberon, Titania a Puck.

### Y Gweithwyr – Croesaniaid

Nick Bottom, Peter Quince, Francis Flute, Robin Starveling, Tom Snout a Snug.

### Oberon a Titania

Titania yw brenhines y tylwyth teg ac mae'n briod ag Oberon. Ar ddechrau'r ddrama, mae Titania yn dadlau gyda'i gŵr ynglŷn â gwrthod rhoi bachgen o India iddo gan ei bod wedi addo gofalu amdano. Wrth iddi gysgu, mae Oberon yn trefnu bod ei was yn rhoi hylif hudol yn ei llygaid sy'n ei gwneud hi i syrthio mewn cariad â'r person cyntaf mae'n ei weld. Bottom yw'r person hwnnw.

Mae Titania yn ymddangos yn gymeriad cryf, annibynnol a hyderus. Mae'n benderfynol ac nid yw'n ofni croesi ei gŵr. Mae'n mynegi ei theimladau yn agored, yn yr un modd â Hermia sy'n gweithredu yn erbyn dymuniadau ei thad. Mae Titania'n ychwanegu at y thema cariad yn y ddrama, ond fel Helena, mae'r teimladau o genfigen a brad yn amlwg hefyd. Serch hynny, daw hi â llawer o gomedi a difyrrwch i'r ddrama.

Mae Oberon yn frenin ar y tylwyth teg a gan fod ei wraig yn gwrthod gwireddu ei ddymuniad, mae'n penderfynu dial arni. Mae Puck, ei was ffyddlon, yn ei helpu i weithredu nifer o driciau ar ei wraig, ac ar nifer o gymeriadau eraill yn y ddrama.

## TASGAU

Edrychwch ar Act 2, Golygfa 1 o "*Daw Oberon, brenin y Tylwyth Teg, i mewn trwy un drws gyda'i ddilynwyr; a Titania, y Frenhines trwy ddrws arall, gyda'i dilynwyr hithau.*"

Hyd at "*Exeunt Titania a'i dilynwyr.*"

**Syniadau am gwestiynau byr:**

1. Yn fyr, disgrifiwch y berthynas rhwng Titania ac Oberon yn y darn hwn.

2. Pa ddwy dechneg ymarfer gallai'r cyfarwyddwr ddefnyddio i helpu'r actorion archwilio'r berthynas rhwng y ddau? Nodwch y rhesymau am eich dewis.
3. Awgrymwch wisg, gwallt a cholur addas ar gyfer y ddau gymeriad ac esboniwch eich dewisiadau.
4. Disgrifiwch ddwy effaith sain addas gallech chi eu defnyddio yn y darn hwn.
5. Sut byddai cymeriad Titania yn dweud y llinellau canlynol

   "*Oberon eiddigus! Ymaith Deulu;*
   *Rwy'-i wedi cefnu arno fe a'i wely.*"

   Nodwch y rheswm am eich dewisiadau.
6. Fel actor, dewiswch un symudiad, un ystum ac un mynegiant wynebol i gyfleu cymeriad Oberon i'r gynulleidfa yn y darn hwn.
7. Disgrifiwch ddwy effaith golau addas gallech chi eu defnyddio yn y darn hwn.
8. Fel dylunydd, enwch y propiau byddai'r ddau actor yn medru eu defnyddio yn y darn hwn. Yna disgrifiwch y propiau, (lliw, ansawdd, cyfnod) ac esboniwch sut byddai'r actorion yn eu defnyddio yn yr olygfa.

**Syniadau ar gyfer cwestiwn 4 yn y papur arholiad (10-15 marc)**

1. Disgrifiwch sut byddech chi'n llwyfannu'r darn hwn ar gyfer perfformiad o'r ddrama *Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan*. Yn eich ateb, cyfeiriwch at y canlynol:
   - eich dewis o lwyfan
   - arddull y cynyrchiad
   - eich dewis o set a phropiau.

   Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.
2. Fel dylunydd, esboniwch sut byddech chi'n defnyddio llwyfan THEATR GYLCH i lwyfannu'r darn hwn. Bydd angen i chi gyfeirio at y cynhyrchiad gwreiddiol hefyd. Yn eich ateb, cyfeiriwch at y canlynol:
   - lleoliad y gynulleidfa
   - arddull y cynhyrchiad
   - eich syniadau am olau a sain
   - eich syniadau am set a phropiau.

   Gallwch addasu siâp y llwyfan a dewis o'r canlynol – GWTH, PROSCENIWM, TRAWS.
3. Esboniwch sut byddai actor sy'n chwarae rhan Titania yn defnyddio sgiliau corfforol i gyfleu'r cymeriad i'r gynulleidfa (gallwch newid y cymeriad i Oberon pe dymunir). Yn eich ateb, cyfeiriwch at y canlynol:
   - cymhelliant y cymeriad yn y darn hwn
   - symudiadau ac ystumiau
   - osgo
   - mynegiant wynebol.

   Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.
4. Esboniwch sut byddai actor sy'n chwarae rhan Oberon yn defnyddio sgiliau lleisiol i gyfleu'r cymeriad i'r gynulleidfa (gallwch newid y cymeriad i Titania pe dymunir). Yn eich ateb, cyfeiriwch at y canlynol:
   - cymhelliant y cymeriad yn y darn hwn
   - tôn a thempo
   - traw.

   Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.
5. Disgrifiwch sut byddai'r actorion yn defnyddio'r llwyfan ac yn rhyngweithio yn y darn hwn. Yn eich ateb, cyfeiriwch at:
   - siâp y gwagle
   - arddull y perfformiad
   - symudiadau y cymeriadau

   Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.

**Cymeriadau eraill yn y ddrama**

**Bottom**

Mae Bottom yn wehydd ond a'i fryd ar fod yn actor. Mae'n ceisio perswadio Quince mai ef

ddylai chwarae **pob** cymeriad yn y ddrama. Mewn un ymarfer yn y goedwig, mae swyn Puck yn trawsnewid ei ben yn ben asyn! Mae Titania yn syrthio mewn cariad ag e ond, erbyn diwedd y ddrama, mae wedi trawsnewid yn ôl ac yn llwyddo i berfformio rôl Pyramus. Mae'n gymeriad doniol ac o fewn y grŵp fe ddylai sefyll allan ar lwyfan. Dim ond ef sy'n croesi rhwng y byd dynol a byd y Tylwyth Teg.

(Bydd angen ystyriaeth lawn i benwisg y cymeriad a hefyd i lais y cymeriad ar ôl y trawsnewidiad. Trafodwch hyn yn y dosbarth ac ymchwiliwch sut cafodd hyn ei gyflwyno mewn cynhyrchiadau eraill.)

**Puck**

Mae Puck yn was i Oberon ac mae ganddo reolaeth arbennig dros hud a lledrith. Mae'n medru bod yn anweledig, neu fe all newid ei ymddangosiad. Mae'n ddewin ac yn rheoli triciau. Mae hefyd yn chwerthin am ben y gweddill ac yn credu bod dynion yn ymddwyn fel ffyliaid.

(Ystyriwch wisg, colur a gwallt y cymeriad. Gallwch edrych ar gynhyrchiadau gwahanol i gael syniadau. Trafodwch hyn yn y dosbarth.)

**Demetrius, Hermia, Lysander a Helena**

Mae'r pedwar yma mewn cyfyng-gyngor ar ddechrau'r ddrama am resymau carwriaethol gwahanol! Ond maent i gyd yn gymeriadau breintiedig. Erbyn y diwedd mae'r ddau gwpwl, ar ôl llawer o ddadlau ac ymladd, yn priodi.

**Hippolyta a Theseus**

Theseus yw Dug Athen ac mae wedi dyweddïo â Hippolyta. Mae Theseus yn symbol o bŵer drwy gydol y ddrama, er mai dim ond ar y dechrau ac ar y diwedd mae'n ymddangos. Mae Hippolyta'n Frenhines yr Amazons a gellir cymharu ei sefyllfa yn y ddrama â sefyllfa Titania, Brenhines y Tylwyth Teg. Mae'r ddwy yn cael eu rheoli gan ddynion, ond maent hefyd yn ferched cryf a deallus.

**Egeus**

Dyn pwysig yn Athen, sy'n ffrind i'r Dug ac yn dad i Hermia yw Egeus. Byddai'n well ganddo ddedfrydu'i ferch i farwolaeth na gadael iddi briodi'r dyn mae'n ei garu. Mae hyn yn gwneud iddo ymddangos yn hunanol a chreulon. Gall fod yn hollol afresymol ar adegau.

**Pwysig** - Pan fyddwch yn astudio rôl pob un cymeriad yn y ddrama, cofiwch fod angen i chi ystyried oedran, cefndir a statws cymdeithasol y cymeriadau. Hefyd, wrth i chi ddewis darn penodol, canolbwyntiwch ar gymhelliant y cymeriad yn y darn hwnnw, darllenwch y cyfarwyddiadau llwyfan yn ofalus er mwyn cael mwy o wybodaeth. (Trafodwch beth yw ystyr y term **cymhelliant** yn y dosbarth.)

## TASGAU PERFFORMIO

Dewiswch ddarn penodol, un sydd efallai yn allweddol iawn yn y ddrama.

1. Trafodwch gyda phartner neu mewn grŵp beth yw perthynas y cymeriadau â'i gilydd yn y darn hwn.
2. Beth yw cymhelliant y cymeriadau yn y darn?
3. Sut byddent yn defnyddio'r gwagle, a chofiwch, wrth ateb y cwestiwn, bydd rhaid i chi ystyried siâp y llwyfan. Trafodwch ac arbrofwch gyda'r symudiadau a'r rhyngweithio yn y darn.
4. Ystyriwch y cynefineg (*proxemics*), sef y pellter ac agosatrwydd rhwng y cymeriadau yn y darn.
5. Ystyriwch ystum, osgo a cherddediad eich cymeriad.
6. Ystyriwch eich defnydd o lais, tôn, tempo a thraw.
7. Cofiwch fod eich dehongliad chi yn un unigryw, ond rhaid i chi roi ystyriaeth lawn i fwriad y dramodydd.

Wrth i chi ymarfer y darn, gallwch wneud gwaith byrfyfyr ac amryw o dechnegau eraill e.e. sedd boeth er mwyn ceisio dod i adnabod y cymeriad yn well. Ystyriwch y cwestiynau isod:

- Pwy ydw i?
- Ble 'rydw i?
- Pryd mae'n digwydd?
- Beth ydw i eisiau?

- Pam 'rydw i ei eisiau?
- Sut byddaf yn ei gael?
- Beth sydd angen i mi ei oresgyn?

Perfformiwch y darn o flaen y dosbarth, er mwyn cael eu hymateb. Gallwch esbonio wrthynt eich rhesymau dros eich dewisiadau lleisiol, eich symudiadau a'r rhyngweithio.

## 5: Strwythur

Mae 5 act i'r ddrama hon. Mae dwy olygfa ym mhob act, oni bai am Act 5. Mae'n dilyn strwythur traddodiadol y comedi nodweddiadol sef:

1. pethau'n mynd o'i le
2. pob math o wrthdaro a chymlethdodau
3. datrysiad.

Ond, mae Shakespeare yn cymhlethu'r strwythur ychydig ac yn cyflwyno tair stori law yn llaw â'i gilydd – helbul y cariadon, gwrthdaro Oberon â Titania ac ymdrechion y gweithwyr i geisio llwyfannu drama ym mhriodas y Dug.

Yr hyn sy'n clymu pob llinell stori yw'r themâu cyffredin a'r rhyngweithio rhwng y grwpiau o gymeriadau ar hyd y ffordd. Mae'r gwrthdaro agoriadol rhwng y cariadon yn cyrraedd uchafbwynt yn Act 3 ac yn cael ei ddatrys yn Act 4. Mae'r dadlau rhwng y tylwyth teg yn amlygu ei hun yn Act 2, ond mae wedi dod i ben erbyn Act 4. Erbyn Act 5, mae drama Pyramus yn cael ei llwyfannu'n llwyddiannus, er gwaetha'r holl anghytuno rhwng y gweithwyr.

Mae craffu yma hefyd ar ddosbarthiadau cymdeithasol. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni ddeall bwriad Shakespeare yn rhoi cipolwg i ni ar sefyllfa gymdeithasol ei gyfnod – nid yw bonedd bob amser yn iawn na chwaith yn byw'n gytûn!

Mae'r ddrama yn un llawer mwy cymhleth nag ydyw ar yr wyneb o ystyried y cymeriadau niferus a'r pendilio cyson rhwng dau fyd.

## TASGAU

1. Edrychwch ar agoriad y ddrama. Fel cyfarwyddwr, beth yw eich syniadau am lwyfannu, e.e. Golygfa 1, o "*Daw Theseus, Hippolyta, Philostrate i mewn gydag eraill.*" hyd at "*Exeunt pawb ond Lysander a Hermia*"

   Cyfeiriwch at y canlynol:

   - y cynhyrchiad gwreiddiol
   - eich dewis o lwyfan
   - arddull y cynhyrchiad
   - eich dewis o set a phropiau
   - eich dewis o olau
   - eich dewis o gerddoriaeth a sain
   - eich dewis o wisgoedd, gwallt a cholur.

   (Dim ond tua phedwar o'r uchod fydd yn codi mewn cwestiwn arholiad fel arfer.)

2. Edrychwch ar ddarn penodol o'r gwrthdaro. Fel cyfarwyddwr, sut byddech yn llwyfannu hwn, e.e. Act 3, Golygfa 2 o "*Daw Hermia i mewn.*" hyd at "*Exeunt Helena a Hermia*".

   Cyfeiriwch at y canlynol:

   - y cynhyrchiad gwreiddiol
   - eich dewis o lwyfan
   - arddull y cynhyrchiad
   - eich dewis o set a phropiau
   - eich dewis o olau
   - eich dewis o gerddoriaeth a sain
   - eich dewis o wisgoedd, gwallt a cholur.

   (Dim ond tua phedwar o'r uchod fydd yn codi mewn cwestiwn arholiad fel arfer.)

3. Edrychwch ar y diweddglo. Fel cyfarwyddwr, beth yw eich syniadau am lwyfannu'r olygfa, e.e. Act 5, Golygfa 1 o "*Daw Puck i mewn gyda brws*" hyd at "*Exit*".

Cyfeiriwch at y canlynol:

- y cynhyrchiad gwreiddiol
- eich dewis o lwyfan
- arddull y cynhyrchiad
- eich dewis o set a phropiau
- eich dewis o olau
- eich dewis o gerddoriaeth a sain
- eich dewis o wisgoedd, gwallt a cholur.

(Dim ond tua phedwar o'r uchod fydd yn codi mewn cwestiwn arholiad fel arfer.)

## 6: Themâu

### Cariad

Mae *Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan* yn bennaf yn ddrama am gariad. Cariad yw cymhelliant y rhan fwyaf o'r cymeriadau, a gwraidd y dadleuon rhyngddynt. Mae'r thema yn un sy'n creu teimladau cryf o genfigen, yn achosi dadlau brwd, difetha cyfeillgarwch ac effeithio ar fyd natur. O ganlyniad i'r rhesymau hyn, mae'n creu sefyllfaoedd sy'n gwneud i gynulleidfa chwerthin. Dyma bŵer cariad – mae'n medru gwneud pobl yn wallgof!

Ar ben hynny mae'r hylif hudol yn ychwanegu at yr emosiynau ac yn troi'r cymeriadau yn weision i gariad (*slaves to love*). Mae Shakespeare hefyd yn awgrymu bod cariad yn medru ein gwneud yn ddall – "Love is blind." Ar ddiwedd y ddrama, mae'r briodas yn ddathliad perffaith ac yn ddiweddglo hapus i'r ddrama, sy'n profi bod cariad yn brydferth, pur a diderfyn.

### Drama o fewn drama

Mae *Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan* yn ddrama o fewn drama. Yr enghraifft berffaith yw drama *Pyramus a Thisbe*. Mae hyn yn cyflwyno elfennau cryf o ffars, ac mae stori'r ddau gymeriad yn adlewyrchu sefyllfaoedd y cymeriadau eraill, yn arbennig Hermia a Lysander sydd yn ffoi rhag dymuniad y rhieni. Tybed a yw Shakespeare yn gofyn cwestiwn i gynulleidfa'r dydd ynghylch eu gallu i wahaniaethu rhwng realiti a ffantasi?

### Breuddwydion a realiti

Ar ôl y noson swreal o hud yn y goedwig, mae'r cymeriadau'n cyfeirio at y profiad fel breuddwyd. Nid ydynt yn medru rhesymu'r digwyddiadau na 'chwaith wneud synnwyr o'r sefyllfa. O ganlyniad, does dim angen i Bottom a'r cariadon esbonio yr hyn a ddigwyddodd iddynt. Er bod Theseus ar ddiwedd y ddrama yn wfftio storïau'r cymeriadau rhaid cofio mai deddfau Athen oedd gwraidd y problemau, a'r freuddwyd yn y goedwig ddatrysodd y cyfan. Efallai bod Shakespeare yn awgrymu bod breuddwydion a dychymyg mor ddefnyddiol â rhesymeg a realiti, ac ar adegau'n medru creu gwirioneddau sydd tu hwnt i bob rheswm. Weithiau, rydym yn cymysgu'r ddau fyd, ac yn colli'r synnwyr o realiti. Rydym yn ceisio bod yn rhywun neu'n rhywbeth arall er mwyn cuddio rhag y gwir. Roedd Shakespeare yn hoff o'r thema hon ac yn ymdrin â hi'n gyson yn ei ddramâu e.e. *Macbeth*, *Much Ado About Nothing* ac *Othello*.

(Trafodwch y thema yn y dosbarth, ydych chi yn cael breuddwydion? Ydych chi yn eu cofio nhw? Ydyn nhw weithiau yn rhyfedd a ddim yn gwneud synnwyr?)

### Dynion a menywod

Mae'r berthynas rhwng dynion a menywod yn thema gyson drwy gydol y ddrama, gan gynnwys ym myd y tylwyth teg. Mae awgrym clir bod dynion yn dominyddu'r menywod, mae gwŷr yn ceisio rheoli'u gwragedd a thadau'n ceisio rheoli'u merched. Rhaid cofio, yn oes Elisabeth hyn fyddai'r norm, a byddai cynulleidfa y dydd ddim yn cwestiynu hynny.

(Gallwch drafod y thema yn y dosbarth. Ydy hi'n thema hen ffasiwn? Ydy dynion yn medru rheoli merched mewn rhai sefyllfaoedd heddiw ac mewn rhai cymdeithasau, crefyddau, neu wledydd?)

### Hud a lledrith

Mae byd ffantasi y tylwyth teg yn hollbwysig yn y ddrama. Y tylwyth teg sy'n gyrru'r plot ac yn symud y stori yn ei blaen. Mae Oberon a'i hylif hudol yn creu llanast a sawl gwrthdaro, yn ogystal â chynnal y comedi.

## TASGAU

1. Gweithiwch gyda phartner a gwnewch restr o olygfeydd ble mae llwybr cariad yn anwastad.

   Gallwch arbrofi gyda pherfformio darn penodol gan ganolbwyntio ar lais a symudiadau'r cymeriadau.

   Gallwch ddefnyddio technegau ymarfer gwahanol i ddatblygu'r cymeriadau e.e. sedd boeth, lefelau i ddangos pŵer, byrfyfyrio, torri'r darn yn unedau i drafod cymelliannau'r cymeriadau, gwaith meim a lluniau llonydd.

2. Fel dylunydd set, ewch ati i greu model o'r goedwig gan ganolbwyntio ar y thema hud a lledrith. Canolbwyntiwch ar liwiau, deunyddiau a lefelau.

3. Fel dylunydd gwisg, colur a gwallt, ewch ati i greu syniadau sut byddech yn gwisgo'r pedwar cymeriad yn y goedwig – Lysander, Helena, Hermia a Demetrius. Ystyriwch liw, defnydd, ffabrig, ansawdd, cyfnod, steil y gwallt, y colur a thlysau.

4. Fel dylunydd sain a dylunydd golau, dewiswch ddarn penodol lle mae'r thema breuddwyd yn amlygu. Gallwch drafod y math o sain neu gerddoriaeth fyddai'n addas i greu awyrgylch yn y darn a hefyd y mathau o olau: gels, lampau, delweddau ar sgrin, effeithiau arbennig, gobos, cryfder a lliw.

5. Fel cyfarwyddwr, sut byddech chi'n mynd ati i gyflwyno'r ddau fyd ar lwyfan – byd y tylwyth teg a byd dynion? A fyddech yn gwahaniaethu rhwng y ddau fyd yma? Ydy un byd yn cynrychioli rhyddid a rhialtwch, tra bod y llall yn cynrychioli byd sy'n llawn rheolau a deddfau? Efallai, fel cynhyrchydd, byddwch chi'n ystyried awgrymu bod tebygrwydd rhwng y ddau fyd?

6. Fel cyfarwyddwr, fyddech chi'n dewis arddull realistig, symbolaidd neu fwy minimalaidd i lwyfannu'r ddrama hon? Nodwch eich rhesymau a chyfeiriwch at ambell olygfa. Mae'n bwysig cofio sut byddai'r ddrama wedi ei pherfformio yn wreiddiol.

## 7: Cynhyrchiadau cyfoes

Perfformiwyd *Breuddwyd Nos Ŵyl Ifan* yn 2020 gan y National Theatre yn Llundain ond, wrth gwrs, mae sawl perfformiad cofiadwy wedi bod cyn hynny.

Mae'n ddrama sy'n cael ei pherfformio'n gyson mewn ysgolion hefyd. Mae modd ei llwyfannu mewn nifer o arddulliau gwahanol – yn draddodiadol, neu'n fwy cyfoes, mewn gwisg fodern a set llai prysur a chymhleth. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o'r cynyrchiadau'n canolbwyntio ar yr elfennau ffantasïol a byd afreal y ddrama er mwyn creu set, gwisgoedd a golau hynod soffistigedig a chymhleth sy'n wledd i'r llygad.

Roedd cynhyrchiad Peter Brook yn 1970 gan yr RSC yn dra gwahanol a heriol, gyda set ar ffurf bocs a hwnnw'n wyn i gyd. Crëwyd waliau anferth ar y llwyfan ac roedd y cymeriadau'n dringo ar ysgolion i ben y waliau er mwyn edrych lawr ar y byd. Hefyd, roedd gan y Tylwyth Teg sgiliau acrobatig, ac roedd Puck ar stilts! Ar wahân i hynny, roedd y set a'r gofod yn foel, heb lawer o brops nac offer llwyfan. Defnyddiwyd coiliau metel i symbylu'r coed, ac roedd yr actorion yn portreadu mwy nag un cymeriad. Roedd hyn yn arbrofol iawn ar y pryd. Ers hynny, mae dulliau a dylanwadau Brook wedi creu argraff ddofn ym myd theatr ac ar sut i gyfleu arddulliau minimalaidd mewn cynyrchiadau.

Er ei bod yn ddefnyddiol edrych ar y dehongliadau hyn o'r gorffennol, cofiwch fod eich syniadau unigol a gwreiddiol chi'r un mor bwysig. Mae modd i chi fenthyg rhai syniadau wrth i chi drafod ac astudio'r elfennau cynllunio ac wedyn creu eich fersiwn derfynol chi o bob elfen o'r llwyfaniad. Cofiwch fod angen i chi gofio sut oedd y ddrama wedi'i llwyfannu yn ystod oes Shakespeare.

## TASGAU

Gwnewch waith ymchwil i gynyrchiadau blaenorol o'r ddrama.

Arbrofwch â mathau gwahanol o lwyfannau e.e. gwth, prosceniwm, theatr gylch, traws neu rai eraill o'ch dewis chi.

Lluniau Perfformiad y NT:







[https://www.nationaltheatre.org.uk/shows/nt-at-home-a-midsummer-nights-dream](https://www.nationaltheatre.org.uk/shows/nt-at-home-a-midsummer-nights-dream)

Perfformiad 2020

**Syniadau ar gyfer cwestiwn 5 yn y Papur Arholiad – 15 marc**

1. Gan gyfeirio at ddarn allweddol o’r ddrama, sut byddai dylunydd yn dewis defnyddio golau a sain i gyfleu’r awyrgylch i gynulleidfa? Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

    - awyrgylch y darn
    - sut defnyddiwyd golau a sain yn y cynhyrchiad gwreiddiol
    - eich syniadau chi am olau
    - eich syniadau chi am sain.

    Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.

2. Gan gyfeirio at ddarn allweddol o’r ddrama, esboniwch sut byddech yn cyfleu rôl unrhyw un o’r cymeriadau i’r gynulleidfa. Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

    - gymhelliant y cymeriad
    - llais
    - symudiad
    - rhyngweithio.

    Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.

3. Gan gyfeirio at ddarn allweddol o’r ddrama, esboniwch sut byddai dylunydd yn defnyddio’r set i greu awyrgylch i’r gynulleidfa. Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

    - y cynhyrchiad gwreiddiol
    - eich syniadau chi am siâp y llwyfan ac arddull y cynhyrchiad
    - eich syniadau am y set.

    Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.

4. Gan gyfeirio at ddarn allweddol o’r ddrama, esboniwch sut byddai dylunydd yn defnyddio gwisgoedd, gwallt a cholur i greu awyrgylch i’r gynulleidfa. Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

    - y cynhyrchiad gwreiddiol
    - eich syniadau chi am arddull y gwisgoedd, eu lliw, eu hansawdd a’r cyfnod
    - eich syniadau am wallt a cholur.

    Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.

5. Gan gyfeirio at ddarn allweddol o’r ddrama, esboniwch sut byddai’r actorion yn rhyngweithio i gyfleu eu perthynas i’r gynulleidfa. Yn eich ateb, cyfeiriwch at:

   - arddull yr actio
   - symudiadau yr actorion
   - ystumiau ac osgo yr actorion
   - mynegiant wynebol yr actorion.

   Nodwch y rhesymau am eich dewisiadau.

## ATODIAD

### Terminoleg

#### Sgiliau lleisiol

Traw
Tôn
Tempo
Seibiant
Acen
Lefel y llais
Eglurder
Pwyslais

#### Sgiliau corfforol

Ystum
Osgo
Mynegiant wyneb – llygaid
Symudiad – cerddediad
Llonyddwch

#### Rhyngweithio

Cynefineg – pellter ac agosatrwydd
Safle ar y llwyfan
Ymateb corfforol

#### Dylunio gwisg, colur a gwallt

Defnydd
Ansawdd
Lliw
Cyfnod
Steil gwallt
Wigiau
Colur
Tlysau

#### Dylunio sain

Cerddoriaeth
Effeithiau sain
Seiniau byw
Seiniau wedi'u recordio
Lefel y sain
Atsain
Meicroffonau
Ffynonellau sain
Offerynnau
Band byw

#### Dylunio golau

Dwysedd
Ffocws
Onglau
Effeithiau arbennig
Lliw – gels
Gobos
Gwahanol lampau

#### Dylunio set

Siâp llwyfan
Fflatiau
Cefnlen
Seiclorama
Lliw
Rostra
Allanfeydd, mynedfeydd
Lefelau – blociau
Llawr
Llenni
Nenfwd
Offer llwyfan
Dodrefn e.e. bwrdd
Grisiau

#### Propiau personol

Llaw
Propiau gellir eu cario e.e. cadair neu focs

## CYDNABYDDIAETHAU

Breuddwyd Nos Wyl Ifan Shakespeare / Delwedd gan Classic Image / Alamy Stock Photo

Shakespeare yn y *Globe* / Delwedd gan ilirjan rrumbullaku / flickr.com

Breuddwyd Nos Wyl Ifan / Delwedd gan Easthampton.com / Defnydd Teg

Breuddwyd Nos Wyl Ifan – Theatr Genedlaethol / Delwedd gan y Theatr Genedlaethol / Defnydd Teg

Breuddwyd Nos Wyl Ifan 1 - Theatr Genedlaethol / Delwedd gan y Theatr Genedlaethol / Defnydd Teg

Breuddwyd Nos Wyl Ifan 2 - Theatr Genedlaethol / Delwedd gan y Theatr Genedlaethol / Defnydd Teg

Defnyddir y lluniau o fewn yr adnodd hwn at bwrpasau addysgol (di-fasnachol) yn unig, er mwyn hwyluso dysgu ac i esbonio cysyniadau'n bellach. Darparwyd cydnabyddiaeth briodol ar gyfer pob llun. Credir fod pob llun sy'n cael ei ddefnyddio yn cydymffurfio â'r polisi Defnydd Teg ond os oes unrhyw beth wedi'i hepgor, neu unrhyw beth yn anghywir, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu gwneud y cywiriadau angenrheidiol. adnoddau@cbac.co.uk